

Teitl y swydd	Prif Beiriannydd Meddalwedd		
Teulu'r swydd	Technoleg, Systemau a Chyflenwi	Gradd	9

Pwrpas y swydd

Bod yn gyfrifol am ddylunio, gweithredu a rhedeg meddalwedd ac offer effeithiol a rhannu arbenigedd manwl mewn parthau busnes a thechnoleg penodol.

Prif gyfrifoldebau ac atebolrwydd

- Arwain y gwaith o ddylunio a datblygu meddalwedd effeithiol sy'n diwallu anghenion busnes strategol cymhleth ar gyfer y tîm uniongyrchol a'r BBC yn ehangach
- Sicrhau cysondeb rhwng cynnyrch a gwasanaethau'r tîm a strategaeth technoleg a phensaernïaeth y BBC
- Darparu gwybodaeth ac arferion gorau i'r BBC yn ehangach mewn meysydd arbenigedd manwl
- Sicrhau bod dull y tîm o brofi yn addas i'r pwrpas
- Arwain y broses o sicrhau bod y meddalwedd yn cael ei integreiddio gyda dulliau monitro a chefnogi
- Darparu gwybodaeth dechnegol, syniadau ac arweinyddiaeth i gymheiriaid a chydweithwyr
- Adolygu a rhoi adborth adeiladol ar godau pobl eraill
- Cynorthwyo rheolwyr cynnyrch ac adrannau i gyfleu strategaeth ac addasrwydd ac effeithiolrwydd y cynnyrch i randdeiliaid ar bob lefel
- Sicrhau bod meddalwedd y tîm yn gweithio'n dda yn ei amgylchedd gweithredu
- Arbenigo ar amgylcheddau gweithredu'r BBC y gall aelodau o'r tîm ymgynghori â chi. Chwarae rhan yn y gwaith o lunio'r amgylcheddau gweithredu hyn
- Sicrhau bod dogfennau cynnyrch technegol y tîm bob amser yn gyflawn, yn gywir ac yn
- gydynol
- Arwain y gwaith o ganfod a datrys problemau drwy gydol cylch oes y cynnyrch, gan gynnwys helpu i ddatrys digwyddiadau y tu allan i oriau gwaith
- Gweithio gydag arweinwyr technegol eraill yn y sefydliad yn ehangach i ddiffinio, dogfennu a dosbarthu arferion da a safonau
- Arwain ac annog gwelliant parhaus ym mhrosesau cyflenwi a datblygu'r tîm
- Cymryd rhan effeithiol yn nulliau datblygu meddalwedd y tîm, fel paru, adolygu codau a dogfennau a darparu parhaus
- Gweithio gydag arweinwyr prosiectau, arweinwyr cynnyrch ac arweinwyr technegol i ddylunio meddalwedd a chreu manylebau a thasgau y gellir eu gweithredu ar lefel cynnyrch a mapiau defnyddio
- Gweithio gyda Thrydydd Partïon pan fo angen, gan roi cyfarwyddyd, cymorth a dogfennau
- Dysgu technolegau newydd a dilyn y datblygiadau o ran technolegau sy'n bodoli eisoes, a helpu i'w cyflwyno pan fo'n briodol

Gwybodaeth, sgiliau, hyfforddiant a phrofiad

Hanfodol

- Profiad helaeth o ddylunio ac ysgrifennu meddalwedd cadarn ar gyfer cymwysiadau mawr mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym ac sydd â chylchoedd rhyddhau sydyn
- Arbenigedd ar sawl fframwaith datblygu prif ffrwd
- Arbenigedd ar barthau busnes sy'n berthnasol i'r BBC

- Arbenigedd ar ddatblygu prif ffrwd a chadwyni dulliau lleoli (IDE, SCCS, CI)
- Arbenigedd ar ddylunio cronfeydd data, a'u defnyddio mewn rhaglenni meddalwedd
- Profiad o arferion ffynonellau agored
- Arbenigedd ar bensaerniaeth y we a thechnolegau allweddol (HTTP, DNS, dylunio dosbarthedig)
- Arbenigedd ar ddatblygiadau sy'n cael eu gyrru gan brofion, a phrofion yn ehangach a phryderon ynglŷn â sicrwydd ansawdd
- Profiad o arwain wrth weithio ar brosiect a phrosesau datblygu meddalwedd proffesiynol, gan gynnwys ystwythder
- Arbenigedd ar ddewis a chymhwyso patrymau dylunio
- Arweinyddiaeth effeithiol a chydweithio y tu mewn a'r tu hwnt i'r tîm. Gallu dylanwadu'n effeithiol ar randdeiliaid amrywiol ac uwch
- Cymryd cyfrifoldeb am hybu cynnyrch a systemau fel eu bod yn llwyddo

Dymunol

- Gradd mewn Gwyddor Cyfrifiaduron
- Profiad o recriwtio, rheoli a mentora
- Profiad o gefnogi, addasu a chynnal systemau a chod a ddatblygwyd gan bobl eraill
- Profiad o siarad mewn fforymau ar gyfer y diwydiant, grwpiau diddordeb neu flogio ac ymgysylltu'n ehangach â'r diwydiant

Effaith y swydd

Gwneud penderfyniadau

- Yn atebol i'r Rheolwr Peirianeg Meddalwedd neu'r Rheolwr Cynnyrch Gweithredol neu'r Pennaeth Peirianeg Meddalwedd
- Deall a syntheseiddio strategaeth dechnoleg y BBC a phryderon strategol eraill er mwyn dylunio meddalwedd priodol
- Gwneud penderfyniadau annibynnol am ddyluniad a datblygiad systemau meddalwedd er mwyn diwallu anghenion y busnes a'r cynnyrch. Yn aml, mae'r systemau'n hirhoedlog ac yn hanfodol i lwyddiant allbwn cynulleidfaoedd ac i gefnogi prosesau busnes y BBC. Mae'r dyluniad yn cael effaith sylweddol ar wariant cyfalaf a threuliau gweithredu
- Arwain y dull profi, integreiddio meddalwedd, a darparu cyngor arbenigol i'r tîm a'r rheolwyr am amgylchedd gweithredu'r meddalwedd. Goruchwylio bod yr holl ddogfennau cynnyrch technegol yn cael eu llenwi'n gywir ac yn arwain y gad o ran datrys problemau.
- Cydweithio â rhanddeiliaid a rheolwyr cynnyrch ar bob lefel er mwyn deall gofynion busnes a dylanwadu ar ofynion a dyluniad cynnyrch
- Cydweithio ar ddylunio a gweithredu gwasanaethau
- Cyfleu'r dyluniad ac addasrwydd y cynnyrch/system i'r gofynion busnes i randdeiliaid ar bob lefel
- Pennu a dogfennu gofynion technegol a gweithredol ar gyfer caffael cynnyrch gan drydydd partïon
- Rheoli dyluniad a gweithrediad (drwy adolygu a manylebu) cynnyrch a systemau meddalwedd trydydd partïon
- Cyfleu eu cynnyrch, a gweithio mewn fforymau priodol ar gyfer y diwydiant, gan gyflwyno arbenigedd ac effeithiolrwydd y BBC

Cwmpas

Cyllid: Cyllideb uniongyrchol (ar gyfer gwaith trydydd parti) £500k

Rheolaeth Linell: Dim cyfrifoldeb rheoli llinell

Timau ad hoc: Mae disgwyl iddynt gymryd rhan mewn fforymau strategaeth technoleg a chynnyrch dylunio a pheirianeg (hyd at 50 o gyfranogwyr)

Mae disgwyl iddynt gyfranogi ac arwain (timau hyd at 20 mewn nifer) mewn gwaith dylunio a chynllunio prosiectau/datrysiadau ar draws sefydliadau

Mae disgwyl iddynt gymryd rhan mewn gwaith trefnu, rheoli talent ac ymarferiadau cynllunio strategol eraill

Gwybodaeth arall

At ddefnydd y tîm Dyfarnu yn unig

Cod y Swydd

Diffiniad:

Cynnwys

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddatganiad ysgrifenedig o nodweddion hanfodol y swydd, gyda'i phrif atebolrwydd, ac mae'n cynnwys cofnod o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol er mwyn cael lefel foddhaol o berfformiad. Nid rhoi cofnod cyflawn, manwl o bob agwedd ar y dyletswyddau sy'n rhan o'r swydd yw'r bwriad.

DISGRIFIAD SWYDD



Atodiad

Mae'n bosib y bydd is-setiau o'r swydd gyffredinol a ddisgrifir uchod yn gofyn am sgiliau technegol ychwanegol. Ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath, mae modd datblygu'r atodiad hwn i'r disgrifiad swydd cyffredinol.

Adran	
Yn atebol i (teitl)	
Lleoliad	

Strwythur y sefydliad	

Cyfrifoldebau ac atebolrwydd ychwanegol sy'n benodol i'r swydd

Cymeradwyaeth	
Rheolwr	Enw a theitl swydd
Partner Busnes AD	Enw
Dyddiad	